# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

## RHAN 5

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Cyffredinol*

### 26 Dehongli

Yn y Ddeddf hon—

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw corff a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf 2006;

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42);

ystyr "rheoliadau" ("*regulations*") yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "ymddiriedolaeth GIG" ("*NHS trust*") yw corff a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf 2006.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 26 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** A. 26 mewn grym ar 8.3.2022 gan O.S. 2022/208, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 26.